

Rhif: WG41952



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cwricwlwm i Gymru: Addysg heblaw yn yr ysgol

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau eraill sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol.

Dyddiad cyhoeddi: 1 Chwefror 2021  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 29 Mawrth 2021

# Cwricwlwm i Gymru: Addysg heblaw yn yr ysgol

## Trosolwg

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm yn llwyddiannus. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi:

- fframwaith ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb
- arweiniad ar yrfaeodd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- camau i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwmm dysgu
- cwricwlwm i'w fabwysiadu gan leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir
- canllawiau ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion ac ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol
- canllawiau ar laith Arwyddion Prydain.

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu eich barn ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'u datblygu ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.

Datblygwyd y canllawiau gan ymarferwyr drwy broses o gyd-adeiladu gyda chymorth arbenigwyr, a dylid eu defnyddio i gefnogi cynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm. Mae'r cam adborth hwn yn rhan o'r broses gyd-adeiladu. Mae'n rhoi cyfle i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gyfrannu a helpu i gefnogi datblygiad y canllawiau.

Bydd y cam adborth yn dod i ben ar 29 Mawrth, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol a chan weithgorau ymarferwyr, gyda chymorth arbenigwyr yn yr maes. Yna caiff y canllawiau drafft eu mireinio mewn ymateb i adborth a byddant yn rhan o ddiweddariad i fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn hydref 2021.

Noder: Bydd Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n mynd drwy broses graffu'r Senedd ar hyn o bryd. Dylai ymatebwyr gofio y gallai unrhyw welliannau a wneir i'r Bil hefyd effeithio ar ganllawiau Cwricwlwm i Gymru.

## Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **29 Mawrth 2021** fan hwyraf.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael ar:  
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

Mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael ar:  
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/>

Mae canllaw ar gyfer plant, pobl ifnac a theuluoedd ar age ar:  
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/>

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://llyw.cymru/ymgyngoriadau)

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm  
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [cwricwlwmigymru@llyw.cymru](mailto:cwricwlwmigymru@llyw.cymru)



@ LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:  
Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

# Cwricwlwm i Gymru: addysg heblaw yn yr ysgol

## Cyflwyniad

Dyma'r canllawiau drafft yr ydym yn gwahodd adborth arnynt. Rydym yn bwriadu darparu enghreifftiau i ddangos sut y gellid mynd i'r afael â'r egwyddorion yn y canllawiau hyn mewn gwahanol leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol (AHY).

## Pwrpas

Mae'r canllawiau ychwanegol hyn ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol i unigolion sy'n gyfrifol am gynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn AHY, gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion (Uned/Unedau). Dylid eu hystyried ochr yn ochr â chanllawiau fframwaith [Cwricwlwm i Gymru](#).

Mae'r canllawiau ychwanegol hyn yn nodi agweddau ar ddarpariaeth AHY sy'n wahanol i addysg brif ffrwd ac yn nodi ystyriaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r agweddau hyn wrth gynllunio a gweithredu cwricwlwm.

## Beth yw AHY?

Ysgol brif ffrwd yw ysgol gymunedol, ysgol arbennig gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol feithrin a gynhelir. I'r gwrthwyneb, ni ddarperir AHY drwy'r rhain, mae'n addysg sydd wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr na allant, am ba reswm bynnag, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. O ystyried yr amrediad eang o ran anghenion dysgwyr, caiff y ddarpariaeth ei threfnu mewn ffyrdd amrywiol a'i chyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau.

Mae AHY wedi'i chynllunio ar gyfer lleoliadau tymor byr i gefnogi dysgwyr i ddychwelyd i addysg brif ffrwd. Nid yw wedi'i chynllunio ar gyfer darparu addysg arbennig hirdymor i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae lleoliadau AHY yn chwarae rôl hollbwysig o ran rhoi mynediad i ddysgu i rai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Unedau, sefydliadau addysg bellach, ysgolion arbennig annibynnol a sefydliadau yn y trydydd sector. Gellir cyfuno'r opsiynau hyn hefyd ag addysg ran-amser mewn ysgol brif ffrwd fel rhan o becyn o fesurau a gynlluniwyd i ddarparu addysg addas. Felly, mae AHY yn aml yn gofyn am fwy o hyblygrwydd nag addysg brif ffrwd. Mae yna rwystrau sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad i ddarpariaeth brif ffrwd a chymryd rhan mewn addysg. Mae'n rhaid i AHY ganolbwyntio ar helpu dysgwyr i fynd i'r afael â'r rwystrau hyn, a'u goresgyn, yn ogystal â sicrhau cynnydd addysgol.

## Unedau cyfeirio disgyblion (Unedau)

Mae uned cyfeirio disgyblion yn ysgol sydd wedi'i sefydlu gan awdurdod lleol wedi'i threfnu'n arbennig i ddarparu AHY. Nid yw'n ysgol brif ffrwd neu'n ysgol arbennig a gynhelir. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cynnal Unedau a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau ac eu bod nhw wedi eu trefnu i ddarparu addysg eang a chytbwys.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae Unedau yn cael eu trefnu a'u rheoli ar gael yn y [Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion](#).

## Deddfwriaeth gyfredol

Ar hyn o bryd dylai Unedau gynnog cwricwlwm cytbwys gyda sail eang sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol dysgwyr yn unol â disgwyliadau cymdeithas, ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn. Rhaid i leoliadau AHY eraill ddarparu addysg addas.

Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i drefnu darpariaeth AHY. Mae Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn diwygio adran 19 fel ei fod yn gymwys i Loegr yn unig ac yn mewnosod adran 19A newydd yn Neddf 1996 i Gymru yn unig.

Nid yw Deddf 1996 yn rhoi'r pŵer i ysgolion a gynhelir drefnu na darparu AHY. Fodd bynnag, gall ysgolion drefnu neu ddarparu addysg y tu allan i leoliadau ysgol drwy ddefnyddio darpariaethau yn Neddf Addysg 2002. Mae hyn yn golygu y gallant, mewn rhai achosion, ariannu a threfnu neu ariannu a chyflwyno darpariaeth megis tiwtora cartref. Fodd bynnag mae dyletswyddau cyfreithiol o ran y cwricwlwm y mae'n rhaid i ysgolion ei gyflwyno yn wahanol i'r dyletswyddau o ran cwricwlwm ar gyfer lleoliadau AHY. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer darparwyr AHY sy'n ymwneud â darpariaeth, heblaw yn yr ysgol, a gaiff ei hariannu, ei threfnu a/neu ei darparu gan awdurdodau lleol.

## Bil cwricwlwm ac asesu (Cymru)

Cafodd Bil Cwricwlwm ac Asesu (Bil) ei gyflwyno yn y Senedd yn 2020. Er mwyn helpu i weithredu'r Bil hwnnw, rydym am gyhoeddi ystod o ganllawiau i gefnogi ymarferwyr. Bydd hyn yn cynnwys crynodeb o'r ddeddfwriaeth a fydd yn sail i'r cwricwlwm y bydd ysgolion a lleoliadau yn ei ddatblygu.

Mae fersiwn gynnar o'r [crynodeb o'r ddeddfwriaeth arfaethedig](#) ar gael. Nid yw'n hollgynhwysfawr ac ar hyn o bryd mae'n amlygu'r cynigion allweddol yn unig. Os caiff y Bil ei basio gan y Senedd, bydd y crynodeb a gweddill canllawiau fframwaith y cwricwlwm yn cael eu diwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Cynigiwn y dylid cyflwyno'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag AHY ac Unedau fel rhan o'r canllawiau ychwanegol hyn.

## Cynllunio cwricwlwm ac asesu

Nod canllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw helpu ymarferwyr mewn ysgolion, Unedau a lleoliadau addysgol eraill i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, gan alluogi eu dysgwyr i wireddu'r [pedwar diben](#). Dyma'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, sef eu bod yn datblygu'n:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae cysylltiad anorfod rhwng y cwricwlwm ac asesu. Mae [rhagor o wybodaeth](#) ar gael am y dull a weithredir ar gyfer asesu a sut y caiff cynnydd ei gefnogi gan asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae asesu'n chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol, gyda chryfderau, cyflawniadau, meysydd i'w gwella a rhwystrau dysgu pob unigolyn yn cael eu nodi. Mae'n broses barhaus o ddydd i ddydd sy'n darparu cyfleoedd i adnabod a chynnig cefnogaeth ychwanegol. Mae hefyd yn

galluogi ymarferwyr i ymateb i anghenion dysgwr unigol a chefnogi lles y dysgwr mewn modd amserol.

Mae asesiad ar gyfer pob dysgwr yn asesu'r:

- cynnydd mewn perthynas â'r cwricwlwm sydd wedi cael ei deilwra ar gyfer ei anghenion unigol
- camau nesaf yn ei gynnydd a'r dysgu a'r addysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Mewn termau ymarferol dylai'r holl waith o drefnu, cynllunio a gweithredu cwricwlwm ac asesu roi'r dysgwr unigol wrth wraidd y penderfyniadau i adnabod a diwallu ei anghenion. Mae'r dull hwn yn golygu y dylai pob darparwr AHY anelu at ddatblygu cynllun arloesol a chreadigol ar gyfer y cwricwlwm sy'n rhoi llwybrau cadarn, priodol cydlynol a dyheadol i bob dysgwr.

## **Egwyddorion allweddol**

Mae dysgwyr sy'n mynychu lleoliadau AHY yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu. Maen nhw'n mynychu lleoliadau AHY am resymau amrywiol ac maent yn aml wedi profi heriau yn eu bywydau sy'n fwy na rhai eu cyfoedion. Yn ogystal â hwyluso lles bob dysgwr, dylai'r egwyddorion canlynol fod yn sail i'r broses o drefnu, cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm mewn lleoliadau AHY:

- Meithrin lles pob dysgwr
- Cydweithio systematig rhwng dysgwr, rhieni/gofalwyr, ysgol a darparwyr AHY
- Mynediad i gwricwlwm cynhwysol sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol pob dysgwr
- Cefnogi ailintegreiddio dysgwyr sy'n derbyn AHY i ddarpariaeth brif ffrwd neu arbenigol a/neu eu cefnogi i symud ymlaen tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith.

### **Meithrin lles**

Dylai dysgu gefnogi lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol dysgwyr. Mae lles yn hanfodol i alluogi dysgu – os na fydd dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus, yn saff ac yn ddiogel, ni fyddant yn dysgu'n effeithiol.

### **Cydweithio systematig**

Wrth drefnu, cynllunio a gweithredu cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn AHY, rhaid cydweithio â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys:

- y dysgwr a rhieni/gofalwyr
- pwyllgor rheoli'r Uned a'r pennaeth/athro/athrawes sy'n gyfrifol am yr Uned
- yr awdurdod lleol a'r darparwyr a gomisiynwyd ganddo
- y consortia addysgol rhanbarthol.

Yn aml, mae angen cydweithio â gwasanaethau partner hefyd, megis iechyd a gofal cymdeithasol, troseddau ieuenctid, gwasanaethau ataliol a therapiwtig er mwyn sicrhau bod anghenion unigol pob dysgwr yn cael eu diwallu.

Mae cydweithio o'r fath yn arwain at ddealltwriaeth gyffredin rhwng rhanddeiliaid ynghylch yr hyn sydd ei angen i drefnu, cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm i adlewyrchu anghenion pob dysgwr unigol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer materion fel dynodi rolau a phennu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm, yn ogystal ag ar gyfer meysydd pwysig eraill megis monitro ansawdd y ddarpariaeth.

## Mynediad i gwricwlwm cynhwysol

Datblygwyd Cwricwlwm i Gymru i fod yn gwricwlwm sy'n [hygyrch i bawb](#). Dylai trefnu, cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm mewn Unedau a lleoliadau AHY eraill gael ei arwain gan anghenion. Dylai hefyd ddarparu llwybr cynnydd clir i gefnogi pob dysgwr unigol i gael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys ym mhob cam, i'r graddau y mae hynny'n briodol i'r dysgwr unigol.

Mae'r ddyletswydd i sicrhau cwricwlwm ar gyfer Unedau sy'n bodloni'r gofynion a amlinellir isod ar yr awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro sy'n gyfrifol am yr Uned.

Bydd yn ofynnol i Unedau:

- ddarparu dysgu sy'n
  - galluogi dysgwyr i ddatblygu mewn perthynas â'r [pedwar diben](#)
  - addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol y dysgwyr
  - eang a chytbwys, ac sy'n cynnig cyfle i bob dysgwr ddangos cynnydd priodol.
- gynnwys dysgu sy'n
  - datblygu'r [sgiliau trawsgwricwlaidd](#)
  - cwmpasu [Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles](#)
  - cwmpasu [addysg cydberthynas a rhywioldeb](#) sy'n addas yn ddatblygiadol ar gyfer pob dysgwr.
- lle mae'n rhesymol bosibl ac yn briodol, gynnwys dysgu o fewn elfennau eraill y Fframwaith, sy'n cynnwys y meysydd dysgu a phrofiad eraill (Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg) a'r elfennau gorfodol (Crefydd, gwerthoedd a moeseg; Addysg cydberthynas a rhywioldeb; Cymraeg a Saesneg).

Mae dyletswydd ar y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol i arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei weithredu ar gyfer dysgwyr yn unol â gofynion y Bil. I bob pwrpas, mae proses dau gam: y cam cyntaf yw cynllunio fframwaith cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion a nodir uchod. Yr ail gam yw ystyried sut i deilwra'r cwricwlwm hwnnw i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

Rhaid iddynt hefyd adolygu cwricwla'n barhaus. Rhaid cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm.

Lle mae awdurdodau lleol yn trefnu AHY i ddysgwyr mewn lleoliad sydd ddim yn Uned, rhaid iddyn nhw sicrhau bod y trefniadau:

- yn sicrhau darpariaeth sy'n galluogi'r dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y [pedwar diben](#)
- yn addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau'r dysgwyr
- yn eang ac yn gytbwys (fel y bo'n briodol i'r dysgwr) ac yn cynnig cynnydd priodol
- yn sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n briodol i'r dysgwr unigol, dysgu sy'n
  - datblygu'r [sgiliau trawsgwricwlaidd](#),
  - cwmpasu'r [Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles](#)
  - cwmpasu'r [addysg cydberthynas a rhywioldeb](#) sy'n briodol ar gyfer cam datblygu pob dysgwr
- lle mae'n rhesymol bosibl ac yn briodol, yn cynnwys elfennau eraill y cwricwlwm, sy'n cynnwys y meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau gorfodol.

Mae dyletswydd i adolygu cwricwla'n barhaus.

Byddai angen sail resymegol glir iawn i unrhyw benderfyniad i beidio â chynnig mynediad i ddysgwr at gwricwlwm eang a chytbwys. Ym mhob achos, dylai hawl dysgwyr gael ei adlewyrchu drwy gynlluniau dysgu a, lle bo'n briodol, gynllun datblygu unigol.



Mae angen sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer parhad a chynnydd ieithyddol i ddysgwyr yn Gymraeg a Saesneg.

### **Cefnogi ailintgreiddio**

Dylai cynllunio a gweithredu cwricwlwm gefnogi ailintgreiddio i ddarpariaeth brif ffrwd neu arbenigol a/neu gefnogi dysgwyr i symud ymlaen at addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith.

Dylai cynllunio i alluogi ailintgreiddio gael ei seilio ar asesu anghenion dysgwyr. Dylid addasu'r cynllunio dros amser, lle bo angen, i adlewyrchu newidiadau i anghenion a blaenoriaethau dysgwyr. Bydd ystyriaethau allweddol yn cynnwys:

- darpariaeth ar y cyd wedi'i theilwra i gefnogi pontio
- asesu a chynnydd
- trefniadau ymarferol megis rolau, cyfrifoldebau ac adnoddau
- sicrhau ansawdd.

Mae angen ystyried bob math o adegau pontio yn ofalus ar y cyd â'r holl randdeiliaid er mwyn sicrhau y gall dysgwyr adeiladu ar eu dysgu a pharhau i ddatblygu a symud ymlaen ar eu llwybr dysgu.

Mae angen sicrhau bod ailintgreiddio hefyd yn darparu parhad a dilyniant ieithyddol i ddysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.